

Eisteddfod Penrhyn-coch 2018

Cystadleuaeth Rhif 5: Soned - Dinas

Dwy soned ddaeth i law gan BETSAN a JONEM a'r ddau yn dehongli'r testun mewn modd negyddol, yn dangos effaith atyniad y ddinas ar gymunedau cefn gwlad. Er bod peth hyblygrwydd gyda mesur y soned, mae'r soned yn fwyaf effeithiol pan fo'r rhythm yn cael ei barchu. Nid yw rhythm soned BETSAN wastad yn taro deuddeg, er bod rhai llinellau effeithiol iawn. Dyma'r dechrau: 'O'r meysydd blodeuog a chysgod llwyn, / Gadewais y wlad am brifddinas fawr / A'n nghalon ar dorri wrth weled yr ŵyn / yn prancio yn hapus ar doriad gwawr.' Agoriad da. Fodd bynnag, mae llinellau fel 'O hoffwn fynd yn ôl eilwaith i'r plwy' yn llai effeithiol. Gosodir yr ansoddair o flaen yr enw yn rhy aml - 'amddifad fro' a 'diddig gol' er enghraifft.

Mae soned JONEM yn yr un cywair ond wedi mynegi'r syniad yn well. Mae ambell fan lle mae'r rhythm ychydig yn lletchwith e.e. 'Teulu 'rôl teulu'n mudo yn eu tro'. Fel y clywch, nid yw JONEM yn gadael unrhyw amheuaeth am ei farn ar y mater - mae 'hufen ieuencid' yn 'dihysbyddu'r' cymunedau yn 'greulon' wrth symud i'r ddinas. Ymddengys bod gwahaniaeth rhwng y teuluoedd a symudodd i ganfod gwell byd yn y meysydd glo a'r rhai sydd yn symud heddiw i chwilio am waith. Anodd anghytuno gyda neges y cwpled clo. Soned uniongyrchol, bendant, sydd yn cyfathrebu'i neges yn glir. Byddai ychydig mwy o ddelweddau a chynildeb wedi bod yn braf, ond mae JONEM yn sicr yn haeddu'r wobwr gyntaf.